**Rhif: WG33299**

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Meysydd Tref a Phentref

Awst 2018

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-78937-711-6

# Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Ymatebion

3. Crynodeb o'r ymatebion

# Atodiadau

A. Rhestr o ymatebwyr yn ôl categori

## 1. Cyflwyniad

1.1 Lansiwyd y ddogfen ymgynghori 'Cofrestru meysydd tref a phentref' ar 23 Hydref 2017 ac roedd modd cyflwyno ymatebion iddo tan 2 Chwefror 2018. Nodwyd cyfanswm o saith o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori, gyda ffurflen safonol er hwylustod. Gwnaed sylwadau y tu allan i'r cwestiynau safonol hefyd.

1.2 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf. Fe'i rhennir yn ddwy adran arall.

1.3 Mae Adran 2 yn rhoi crynodeb ystadegol cyffredinol o'r ymgynghoriad a manylion ynglŷn â sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.

1.4 Mae Adran 3 yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a gyflwynwyd. Mae hyn yn cynnwys:

- Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o dan bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad;
- Dadansoddiad ystadegol o'r safbwyntiau a fynegwyd ar bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad, lle y gellid llunio ystadegau;
- Crynodeb a dadansoddiad o'r themâu allweddol sy'n deillio o bob cwestiwn;
- Ymateb Llywodraeth Cymru i'r dadansoddiad hwnnw;
- Esboniad o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn dilyn yr ymateb i bob cwestiwn.

1.5 Wrth ddadansoddi a chrynhoi'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ni fydd yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r canlynol:

- **Sylwadau sy'n ailystyried yr egwyddorion a nodwyd yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015:** Gofynnwyd am sylwadau ar yr agwedd hon yn y papur ymgynghori 'Cynllunio Cadarnhaol' ar y Bil Cynllunio drafft i Gymru. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi craffu ar y Ddeddf ac wedi'i phasio;

- **Eglurhad a geisiwyd ynglŷn â manylion:** Bwriedir i'r prosesau newydd, pan fyddant mewn grym, gael eu hategu gan ganllawiau. Bydd y canllawiau hynny yn ceisio egluro materion manwl a godwyd yn y papur ymgynghori hwn;

- **Sylwadau ar achosion neu benderfyniadau unigol gerbron neu a wnaed gan Weinidogion Cymru:** O ystyried rôl statudol Gweinidogion Cymru yn y broses gynllunio, nid oes modd iddynt hwy, nac unrhyw un arall yn Llywodraeth Cymru, wneud sylwadau ar benderfyniad y maent,

neu y maent o bosibl, yn rhan ohono.  Pe baent yn gwneud hynny gallai ragfarnu safbwynt Llywodraeth Cymru.

- **Materion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad:** Lle y gwnaed sylwadau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn ond mewn perthynas â materion y tu hwnt i gwmpas y cwestiwn, gwnaed pob ymdrech i'w crynhoi o dan y cwestiwn cywir.  Fodd bynnag, nid ymdrinnir â sylwadau y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn.  Mae'r materion hynny yn cynnwys meysydd pwnc nas cwmpesir gan Ddeddf Tiroedd Comin 2006 yn ogystal â materion polisi nad ydynt yn dod o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru;

- **Sylwadau sy'n dehongli'r polisi arfaethedig a'r ddeddfwriaeth gyfredol yn anghywir:** Cyflwynwyd ymatebion sy'n gofyn am newidiadau polisi, sydd mewn gwirionedd, yn adlewyrchu'r bwriadau a nodir yn y papur ymgynghori neu'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol na fydd yn cael ei newid.

## 2. Ymatebion

2.1 Ar 23 Hydref 2017 hysbyswyd mwy na 200 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, drwy e-bost fod y ddogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi. Daw'r rhain o'r rhestr ymgynghori graidd a ddelir gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru. Roedd y rhestr hon yn cynnwys pob awdurdod lleol (sef yr Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin) yng Nghymru, cyrff cyhoeddus, grwpiau diddordeb arbennig a grwpiau eraill. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru.

2.2 Cyflwynwyd 22 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Mae pob ymateb i'r ymgynghoriad wedi cael ei ddarllen a'i ystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.

2.3 Darparwyd ffurflen ymgynghori fel atodiad i'r ddogfen ymgynghori ac ar wahân ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi i ba gategori o blith chwe chategori bras o ymatebwyr yr oedd yn perthyn. Dengys Tabl 1 isod y dadansoddiad o'r ymatebwyr.

**Tabl 1 – Dadansoddiad o'r Ymatebwyr**

| **Categori** | **Rhif** | **% y cyfanswm** |
|---|---|---|
| Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 0 | 0% |
| Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 6 | 27% |
| Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall | 5 | 22% |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb | 7 | 31% |
| Y Sector Gwirfoddol | 2 | 10% |
| Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 10% |
| **Cyfanswm** | **22** | |

2.4 Cododd cwestiynau 1 - 6 yr ymgynghoriad gwestiynau penodol ynglŷn â pholisi. Roedd y cwestiynau yn gofyn am un o'r ymatebion canlynol; 'ydw/ydyn', 'ydw/ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)' neu 'nac ydw/ydyn'. Cyflwynir trosolwg ystadegol o'r ymatebion yn dangos natur yr ymatebion i'r cwestiynau fel rhan o'r dadansoddiad o bob cwestiwn yn adran 3 o'r ddogfen hon. Lle nad oedd ymatebwyr wedi nodi ateb penodol, cafodd y rhain eu hystyried a'u cofnodi fel 'ddim yn gwybod'.

| **Tabl 2: Cwestiynau'r Ymgynghoriad** | |
|---|---|
| **C1** | Ydych chi'n cytuno bod yr wybodaeth sydd ei hangen ym mharagraff 2.4 yn briodol? A ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol mewn datganiad? |
| **C2** | Ydych chi'n cytuno y byddai'n rhesymol i dirfeddiannwr gael cynrychiolydd o'i ddewis i lofnodi ei ddatganiad os na all lofnodi'r datganiad ei hun? Os nad ydych, pam? |
| **C3** | Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau cofrestru tiroedd comin allu codi eu ffi eu hunain i weinyddu a phrosesu datganiadau, er mwyn adennill cost darparu'r gwasanaeth hwn? Os nad ydych, pam? |
| **C4** | A ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth bellach yn y gofrestr, yn ogystal â'r hyn a argymhellir ym mharagraff 2.19? |
| **C5** | Ydych chi'n cytuno y dylai'r gofrestr sydd angen ei chadw a'i chynnal gan awdurdodau cofrestru tiroedd comin fod ar ffurf electronig a phapur? Os nad ydych, pam? |
| **C6** | Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddarparu cyfnod o 28 diwrnod i dirfeddianwyr (neu eu cynrychiolydd penodedig) gyflwyno unrhyw wybodaeth neu ddogfennau diwygiedig i gywiro gwall sylweddol? Os nad ydych, pam? |

2.5 Ceir rhestr o'r ymatebwyr a'r categorïau a nodwyd ganddynt yn Atodiad A i'r adroddiad hwn. Os bydd ymatebwyr wedi gofyn i ni gadw unrhyw wybodaeth yn ôl, byddant yn ymddangos fel "Dienw" o dan y categori priodol, ac eithrio unigolion preifat, y bydd pob un ohonynt yn ymddangos fel "Dienw" er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Cyhoeddir 'Rhestr o Ymatebion' a chopïau o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar eu ffurf wreiddiol (gyda manylion personol pob ymatebydd wedi'u ddileu, hyd yn oed os na ofynnir inni wneud hynny) ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## 3. Crynodeb o'r ymatebion

| **C1** | Ydych chi'n cytuno bod yr wybodaeth sydd ei hangen ym mharagraff 2.4 yn briodol? A ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol mewn datganiad? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw/ Ydyn** | **Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nifer** | **Ddim yn Gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| B | Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 2 | 4 | 0 | 0 | 6 |
| C | Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall | 2 | 2 | 0 | 1 | 5 |
| D | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb | 1 | 3 | 0 | 3 | 7 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **6** | **11** | **0** | **5** | **22** |

| | **Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau** | **Nac ydw/ydyn** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb** | **17** | **0** |
| **Cyfanswm y Ganran** | **100%** | **0%** |

## Adolygiad ystadegol

3.1 O'r ymatebwyr hynny a atebodd naill ai 'Ydw, ydyn', 'Ydw, ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)' neu 'Nac ydw, ydyn' i gwestiwn yr ymgynghoriad, cytunodd pob un fod y wybodaeth ym mharagraff 2.4 o'r papur ymgynghori yn briodol. Rhoddodd pum ymatebydd yr ateb 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiwn.

## Themâu allweddol

3.2 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 1 fel a ganlyn:

- Dylai cytundeb a chefnogaeth i'r wybodaeth gael eu nodi mewn datganiad tirfeddiannwr (a nodir ym mharagraff 2.4 o'r papur ymgynghori);

- Dylid cynnwys ychwanegiadau a awgrymir at y wybodaeth mewn datganiad tirfeddiannwr.

## Trosolwg

3.3 Er bod yr ymatebwyr yn cytuno bod y wybodaeth arfaethedig sydd i'w chynnwys mewn datganiad tirfeddiannwr yn briodol, awgrymodd nifer ohonynt hefyd wybodaeth ychwanegol y gellid ei chynnwys, megis:

- Enw a chyfeiriad y tirfeddiannwr a'r cynrychiolydd penodedig;
- Cyfeiriad e-bost a rhif ffôn y tirfeddiannwr (tirfeddianwyr);
- Prawf o berchenogaeth tir (h.y. teitl y gofrestrfa tir neu weithredoedd eiddo);
- Y gymuned y lleolir y tir ynddi;
- Unrhyw enw lleol a roddir ar y tir;
- Cynllun Arolwg Ordnans.

3.4 Fodd bynnag, ceisiwyd eglurhad gan ddau ymatebydd ynghylch p'un a gâi datganiadau tirfeddiannwr eu cyfuno â dogfennau sydd eisoes wedi'u hadneuo o dan adran 31(6) o Ddeddf Priffyrdd 1980, fel sy'n digwydd yn Lloegr ar hyn o bryd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

3.5 Rydym yn cytuno â'r rhan fwyaf o'r ychwanegiadau a awgrymir at y datganiadau tirfeddiannwr sy'n ymwneud â gwybodaeth sy'n benodol i gymunedau lleol a byddwn yn ceisio sicrhau y caiff y rhain eu nodi yn y datganiad tirfeddiannwr.

3.6 Ceisiwyd eglurhad hefyd ynghylch pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried datganiad ar y cyd sy'n cynnwys datganiad tirfeddiannwr a dogfennau

sydd wedi'u hadneuo o dan adran 31(6) o Ddeddf Priffyrdd 1980. Y rheswm dros hyn yw nad oes gan Weinidogion Cymru y pwerau sydd eu hangen i ddarparu ar gyfer ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas â datganiad ar y cyd o dan adran 31(6) o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac adran 15A o Ddeddf Tiroedd Comin 2006.

3.7 At hynny, am ein bod o'r farn bod angen ad-dalu Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin am y gwaith y mae'n ofynnol iddynt ei wneud i brosesu a hysbysebu datganiadau a gaiff eu hadneuo â nhw, byddai'n afresymol gofyn i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin wneud gwaith ychwanegol, na fyddent yn gallu codi ffi amdano er mwyn adennill eu costau eu hunain.

<u>Y camau nesaf</u>

3.8 Byddwn yn ceisio cynnwys enw, cyfeiriad a manylion cyswllt tirfeddianwyr mewn datganiad tirfeddiannwr er mwyn helpu i wella eglurder. Fodd bynnag, yn hytrach na gofyn am brawf o berchenogaeth tir ar ffurf teitl y gofrestrfa tir neu weithredoedd eiddo, ein bwriad yw sicrhau y caiff ‘datganiad o wirionedd’ ei gynnwys fel rhan o ddatganiad tirfeddiannwr, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgan bod yr holl wybodaeth a ddarperir yn wir. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu bod ymgeisydd yn cyflawni twyll.

3.9 Er mwyn sicrhau mwy o hyblygrwydd, byddwn hefyd yn rhoi cyfle i dirfeddianwyr gynnwys gwybodaeth am eu tir, gan gynnwys unrhyw wybodaeth leol berthnasol.

3.10 Bydd hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno map Arolwg Ordnans fel rhan o'r datganiad tirfeddiannwr. Fodd bynnag, ein bwriad yw y bydd map yn rhan o'r broses ddilysu ar gyfer adneuo datganiadau tirfeddianwyr ac, felly, ni dderbynnir datganiad, oni chyflwynir map gydag ef.

| C2 | Ydych chi'n cytuno y byddai'n rhesymol i dirfeddiannwr gael cynrychiolydd o'i ddewis i lofnodi ei ddatganiad os na all lofnodi'r datganiad ei hun? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw/ Ydyn** | **Ydw/Ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nifer** | **Ddim yn Gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| B | Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 3 | 2 | 1 | 0 | 6 |
| C | Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall | 1 | 3 | 0 | 1 | 5 |
| D | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb | 2 | 1 | 1 | 3 | 7 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **7** | **8** | **2** | **5** | **22** |

| | Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau | Nifer |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb** | **15** | **2** |
| **Cyfanswm y Ganran** | **88%** | **12%** |

Trosolwg ystadegol

3.11 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig y dylai tirfeddiannwr gael cynrychiolydd o'i ddewis i lofnodi ei ddatganiad pe na allai lofnodi datganiad ei hun.

3.12 Roedd grwpiau Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall, y Sector Gwirfoddol ac Eraill oll yn cytuno â'r cynigion heb unrhyw wrthwynebiadau. Roedd y rhan fwyaf o'r grwpiau ACLlau ac Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall hefyd yn cytuno â'r cynnig. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd o bob un o'r grwpiau hyn yn anghytuno ag ef.

Themâu allweddol

3.13 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 2 fel a ganlyn:

- Cytundeb a chefnogaeth cyffredinol i'r cynnig y dylai tirfeddianwyr gael cynrychiolydd o i lofnodi eu datganiad os na allant ei lofnodi eu hunain;

- O'r rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig, roedd sylwadau yn awgrymu y dylai cynrychiolydd fod yn unigolyn ag awdurdod, yn hytrach na ffrind neu berthynas.

Trosolwg

3.14 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig y dylai tirfeddianwyr gael cynrychiolydd o'i ddewis i lofnodi eu datganiad pe na allent ei lofnodi eu hunain ac yn ei gefnogi.

3.15 Fodd bynnag, nododd sawl ymatebydd o wahanol grwpiau rhanddeiliaid y dylai unrhyw gynrychiolydd fod yn asiant neu'n gyfreithiwr, yn hytrach na ffrind neu berthynas, gan y gallai dewis ffrind neu berthynas i weithredu fel cynrychiolydd fod yn fater dadleuol a bod angen osgoi unrhyw hawliadau twyllodrus posibl. Yn yr un modd, awgrymodd ymatebydd arall y dylai system fod ar waith er mwyn sicrhau, os yw'n hawdd iawn dylanwadu ar dirfeddiannwr, nad yw wedi'i orfodi i wneud datganiad.

3.16 Awgrymodd ymatebydd o grŵp Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ac ymatebydd o grŵp y Sector Gwirfoddol ddewisiadau amgen lle y byddai cynrychiolydd yn llofnodi datganiad statudol yn cadarnhau yn rhinwedd pa swydd y mae'n gweithredu a'i fod wedi'i awdurdodi i wneud hynny, neu lle y câi datganiad tirfeddiannwr ei ategu gan dystysgrif a luniwyd gan berson awdurdodedig.

3.17 Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r cynnig gan y byddai'n creu bwlch hyd yn oed yn fwy rhwng y tirfeddiannwr a'r gwir drwy ychwanegu haen arall o bobl a all lofnodi datganiad tirfeddiannwr, a allai arwain at hawliadau twyllodrus.

Ymateb Llywodraeth Cymru

3.18 Cydnabyddwn y pryderon a godwyd gan ymatebwyr a awgrymodd, er eu bod yn cytuno â'r cynnig, fod cyfleoedd i bobl gymryd mantais o dirfeddianwyr y mae'n hawdd dylanwadu arnynt neu i ddatganiadau twyllodrus gael eu cyflwyno, os gallant gael eu llofnodi gan ffrind neu berthynas.

3.19 Felly, byddwn yn ceisio datrys y mater hwn drwy ganiatáu i gynrychiolydd tirfeddiannwr (tirfeddianwyr) neu gynrychiolydd awdurdodedig priodol yn unig, a neb arall, lofnodi datganiad tirfeddiannwr.

Y camau nesaf

3.20 Ein bwriad yw cynnwys 'datganiad o wirionedd' fel rhan o'r datganiad tirfeddiannwr. Bydd yn ofynnol i'r sawl sy'n llofnodi'r datganiad, p'un a yw'n ymgeisydd neu'n gynrychiolydd iddo, ddatgan bod y wybodaeth a geir mewn datganiad yn wir a bod y broses o adneuo datganiad ei hun yn cael ei chyflawni yn onest ac nad yw'n peri colled na'r risg o golled. Felly, gall cyflwyno unrhyw ddatganiadau twyllodrus neu anonest fod yn drosedd o dan Ddeddf Twyll 2006, sy'n agored i gosb addas.

| C3 | Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau cofrestru tiroedd comin allu codi eu ffi eu hunain i weinyddu a phrosesu datganiadau, er mwyn adennill cost darparu'r gwasanaeth hwn? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw/ Ydyn** | **Ydw/ Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nifer** | **Ddim yn Gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| B | Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 3 | 3 | 0 | 0 | 6 |
| C | Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall | 1 | 2 | 1 | 1 | 5 |
| D | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb | 2 | 1 | 1 | 3 | 7 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **7** | **8** | **2** | **5** | **22** |

| | Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau | Nifer |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb** | **15** | **2** |
| **Cyfanswm y Ganran** | **88%** | **12%** |

Trosolwg ystadegol

3.21 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig y dylai fod gan Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin y pŵer i godi eu ffi eu hunain am weinyddu a phrosesu datganiadau tirfeddiannwr. Roedd pob grŵp rhanddeiliaid yn gadarnhaol, ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd o grŵp Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ac un ymatebydd o'r grŵp Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb yn anghytuno â'r cynnig.

Themâu allweddol

3.22 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 3 fel a ganlyn:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig y dylai fod gan Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin y pŵer i godi eu ffi eu hunain am weinyddu a phrosesu datganiad tirfeddiannwr;

- Rhaid i ffioedd fod yn rhesymol ac yn seiliedig ar adennill costau;

- Lleisiwyd rhai pryderon ynghylch diffyg cysondeb o ran ffioedd ledled Cymru.

Trosolwg

3.23 Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, o amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid, yn cytuno y dylai Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin allu codi ffi ar dirfeddianwyr sy'n cyflwyno datganiad er mwyn adennill costau, cyflwynwyd nifer o sylwadau a awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhagnodi ffi benodedig (neu gap o leiaf) mewn deddfwriaeth. Byddai hyn yn helpu i sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru.

3.24 Nododd sylwadau eraill y dylai unrhyw ffi hefyd gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu y byddai'n ofynnol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin eu bodloni. Er enghraifft, nododd ACLl, pe bai'n ofynnol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin osod hysbysiadau ar safleoedd, y byddai hyn yn arwain at anghydraddoldebau oherwydd pellteroedd ac amseroedd teithio gwahanol iawn, yn enwedig yr awdurdodau mwy gwledig hynny. Cynigiwyd dull gweithredu amgen a awgrymodd y dylai ymgeiswyr fod yn gyfrifol am fodloni unrhyw ofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu.

3.25 Roedd un ACLl yn cytuno â'r cynnig, gan honni bod gallu Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin i bennu eu ffioedd eu hunain yn adlewyrchu'r aelodau amrywiol o staff sy'n gwneud y gwaith hwn rhwng gwahanol Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin.

3.26 Nododd yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno â'r cynigion fod diffyg cysondeb ledled Cymru yn broblem, am ei bod yn creu'r posibilrwydd o 'loteri cod post'.

Ymateb Llywodraeth Cymru

3.27 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig y dylai Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin godi eu ffi eu hunain am weinyddu a phrosesu datganiad tirfeddiannwr, er bod y ffaith nad oedd ffi safonol wedi'i rhagnodi mewn deddfwriaeth yn achosi pryder i rai ymatebwyr a oedd o'r farn na fyddai'r diffyg cysondeb hwn yn fuddiol.

3.28 Fodd bynnag, mae tystiolaeth wedi awgrymu nad oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Swyddogion Tiroedd Comin penodol a fyddai'n gyfrifol am ddatganiadau tirfeddiannwr. Felly, bydd costau staff yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, yn ogystal â gorbenion. Am y rhesymau hyn rydym o'r farn ei bod yn fwy priodol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin godi ffi sy'n gweddu i'w hamgylchiadau eu hunain ac sy'n adennill costau, yn hytrach na rhagnodi ffi safonol a all fod o fudd i rai Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin, tra'n rhoi eraill o dan anfantais.

Y camau nesaf

3.29 Bwriedir rhoi'r pŵer i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin godi eu ffi eu hunain am brosesu a gweinyddu datganiadau tirfeddiannwr, er na chaiff lefel y ffi ei rhagnodi mewn deddfwriaeth.

3.30 Rhoddir canllawiau i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin a fydd yn eu cynghori i seilio eu ffi ar adennill costau ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno.

| **C4** | A ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth bellach yn y gofrestr, yn ogystal â'r hyn a argymhellir ym mharagraff 2.19? |
|---|---|

| **Crynodeb Ystadegol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Ydw/ Ydyn** | **Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)** | **Nifer** | **Ddim yn Gwybod** | **Cyfanswm** |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| B | Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 3 | 3 | 0 | 0 | 6 |
| C | Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall | 1 | 2 | 1 | 1 | 5 |
| D | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb | 2 | 1 | 1 | 3 | 7 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **7** | **8** | **2** | **5** | **22** |

| | **Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau** | **Nifer** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb** | **15** | **2** |
| **Cyfanswm y Ganran** | **88%** | **12%** |

Trosolwg ystadegol

3.31 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar y gofrestr i'r hyn a argymhellwyd yn y papur ymgynghori.

3.32 Dim ond un ymatebydd o grŵp Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall, ac un ymatebydd o'r grŵp Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb a oedd o'r farn bod yr holl wybodaeth a gynigiwyd yn y papur ymgynghori yn briodol ac nad oedd angen cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Themâu allweddol

3.33 Mae'r thema allweddol mewn ymateb i gwestiwn 4 fel a ganlyn:

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'n fuddiol cadw gwybodaeth ychwanegol ar gofrestr.

Trosolwg

3.34 O'r ymatebwyr hynny a oedd o'r farn bod angen gwybodaeth ychwanegol, cyflwynwyd yr argymhellion canlynol gan amrywiaeth o ymatebwyr:

- Tystiolaeth ddigonol o berchenogaeth tir (h.y. dogfen gadarnhau'r gofrestrfa tir);
- Y defnydd a wneir o'r tir ar hyn o bryd, is-ddeddfau sydd mewn grym ac unrhyw drwyddedau;
- Y dyddiad y derbyniwyd datganiad a map gan yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin;
- Y dyddiad y bydd datganiad yn peidio â bod yn weithredol.

3.35 Roedd un ymatebydd o grŵp Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall hefyd o'r farn bod trefnu tir yn ôl ardal yn rhy amwys ac efallai na fydd y cyhoedd yn gallu uniaethu'n hawdd â 'ward'. Er mwyn hwyluso dealltwriaeth, awgrymwyd y dylid defnyddio 'cymunedau' yn ei le.

Ymateb Llywodraeth Cymru

3.36 Fel y nodwyd mewn ymateb i Gwestiwn 1, yn hytrach na gofyn am brawf o berchenogaeth tir ar ffurf teitl y gofrestrfa tir neu weithredoedd eiddo, ein bwriad yw sicrhau y caiff 'datganiad o wirionedd' ei gynnwys fel rhan o ddatganiad tirfeddiannwr, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgan bod yr holl wybodaeth a ddarperir yn wir. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu bod ymgeisydd yn cyflawni twyll.

3.37 Rydym hefyd yn cydnabod bod gwahaniaethau rhwng awdurdodau yn lleol ac o ran y ffordd y dosberthir tir ac ardaloedd. Er mwyn sicrhau bod cofrestrau

mor hawdd i'w defnyddio â phosibl, byddwn yn ceisio darparu ar gyfer Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin yn hyn o beth drwy ganiatáu i dir gael ei drefnu yn y ffordd sy'n gweddu orau i leoliad penodol.

Y camau nesaf

3.38 Ein bwriad yw cynnwys y dyddiad y derbyniwyd datganiad a map gan Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin fel rhan o'r wybodaeth y mae angen ei chynnwys ar gofrestr am y gallai'r wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol i sawl rhanddeiliad.

3.39 Er hwylustod ac er mwyn cydnabod gwahaniaethau lleol o ran nodi ardaloedd gweinyddol, byddwn hefyd yn rhoi hyblygrwydd i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin drefnu datganiadau tirfeddiannwr yn ôl ‘cymuned’, yn ogystal ag ‘ardal’ a ‘ward’.

| C5 | Ydych chi'n cytuno y dylai'r gofrestr sydd angen ei chadw a'i chynnal gan awdurdodau cofrestru tiroedd comin fod ar ffurf electronig a phapur? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydw/ Ydyn | Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach) | Nifer | Ddim yn Gwybod | Cyfanswm |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| B | Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 2 | 2 | 2 | 0 | 6 |
| C | Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall | 3 | 1 | 0 | 1 | 5 |
| D | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb | 4 | 0 | 0 | 3 | 7 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **10** | **5** | **2** | **5** | **22** |

| | Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau | Nifer |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb** | **15** | **2** |
| **Cyfanswm y Ganran** | **88%** | **12%** |

Trosolwg ystadegol

3.40 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig y dylid cadw a chynnal cofrestrau ar ffurf electronig a phapur. O'r rhai a atebodd 'Ydw, ydyn' neu 'Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau pellach', roedd yr holl ymatebwyr o grwpiau Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb, y Sector Gwirfoddol ac Arall yn llwyr gefnogi'r cynnig.

3.41 Roedd y rhan fwyaf o'r ACLlau hefyd o blaid y cynnig. Fodd bynnag, roedd yr unig ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn dod o'r grŵp rhanddeiliaid hwn.

Themâu allweddol

3.42 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 5 fel a ganlyn:

- Cytundeb cyffredinol â'r cynnig, gyda dim ond ymatebwyr o'r grŵp ACLlau yn anghytuno ag ef;
- Mae angen gwybodaeth neu arweiniad ychwanegol ynglŷn â'r ffordd y dylid fformatio ac arddangos cofrestrau.

Trosolwg

3.43 Un o'r prif resymau pam roedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn oedd na fyddai'n rhoi grwpiau penodol o dan anfantais, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig na allant ddefnyddio cyfleusterau ar-lein, o bosibl, ac y byddai cadw cofrestrau papur ac electronig er budd pawb.

3.44 Fodd bynnag, roedd dau ACLl yn anghytuno â'r cynnig hwn, gydag un ACLl yn awgrymu y gallai cadw cofrestrau papur ac electronig arwain at anghysondebau. Er bod y ddau ymatebydd yn cydnabod yr anawsterau sy'n wynebu pobl mewn ardaloedd gwledig o ran defnyddio cyfleusterau ar-lein, gwnaethant awgrymu cynnig amgen a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin roi gweithdrefnau ar waith er mwyn galluogi aelodau o'r cyhoedd i weld y gofrestr electronig yn bersonol drwy ymweld â swyddfeydd y cyngor a phe bai angen fersiwn bapur o gofnod penodol gellid ei hargraffu wedyn ar gais.

3.45 O'r rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig, gofynnodd sawl ymatebydd am ragor o wybodaeth, gan gynnwys un ymatebydd o grŵp Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall a awgrymodd fod angen rhagor o fanylion am sut y dylid fformatio ac arddangos cofrestrau ac am ba hyd y dylid cadw datganiadau ar wefan ac un ymatebydd o grŵp y Sector Gwirfoddol a nododd fod yn rhaid i gofrestrau gael eu cadw mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl i gopïau o unrhyw wybodaeth a gedwir arnynt gael eu gwneud ar gyfer unrhyw

un sy'n gofyn am gopi yn bersonol ac, ar yr amod bod y copi yn cael ei wneud heb ddefnyddio cyfleusterau'r cyngor, na ddylid codi unrhyw dâl.

Ymateb Llywodraeth Cymru

3.46 Rydym yn cydnabod y gallai'r gofyniad i gadw a chynnal cofrestr bapur ac electronig roi baich diangen ar rai Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tegwch, rydym o'r farn bod angen osgoi eithrio grwpiau ac unigolion penodol, megis y rhai mewn ardaloedd mwy gwledig.

3.47 Rydym yn cydnabod bod rhywbeth o bosibl i'w ddweud o blaid yr awgrym i anwybyddu cofrestrau papur a gofyn am rai electronig yn unig, gan y gallai fod gan Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin weithdrefnau ar waith er mwyn galluogi unigolion i edrych ar gofrestrau electronig yn swyddfeydd y cyngor fel y byddent yn edrych ar gofrestr bapur. Fodd bynnag, mae tystiolaeth wedi awgrymu nad yw pob Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin mewn sefyllfa i gyhoeddi cofrestrau electronig ar hyn o bryd ac, felly, y byddai'n amhriodol gosod gofynion o'r fath ar hyn o bryd, er y byddwn yn parhau i fonitro gallu awdurdodau lleol i gadw a chynnal cofrestrau electronig yn y dyfodol.

Y camau nesaf

3.48 Bwriadwn gyflwyno gofyniad i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin gadw a chynnal cofrestr bapur ac electronig ar gyfer datganiadau tirfeddiannwr. Fodd bynnag, dim ond os gofynnir iddynt wneud hynny y bydd yn ofynnol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin gyhoeddi a darparu'r fersiwn bapur o'u cofrestr.

3.49 Er mwyn ategu'r cynnig, bwriadwn gyflwyno canllawiau a fydd yn rhoi mwy o fanylion am sut y dylid cadw a chynnal cofrestrau.

| C6 | Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddarparu cyfnod o 28 diwrnod i dirfeddianwyr (neu eu cynrychiolydd penodedig) gyflwyno unrhyw wybodaeth neu ddogfennau diwygiedig i gywiro gwall sylweddol? Os nad ydych, pam? |
|---|---|

| Crynodeb Ystadegol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | | Ydw/ Ydyn | Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach) | Nifer | Ddim yn Gwybod | Cyfanswm |
| A | Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| B | Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 5 | 0 | 1 | 0 | 6 |
| C | Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall | 3 | 1 | 0 | 1 | 5 |
| D | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb | 2 | 2 | 0 | 3 | 7 |
| E | Y Sector Gwirfoddol | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| F | Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm yr holl ymatebwyr** | | **12** | **4** | **1** | **5** | **22** |

| | Ydw, ydyn/Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau | Nifer |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb** | **16** | **1** |
| **Cyfanswm y Ganran** | **94%** | **6%** |

Trosolwg ystadegol

3.50 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig y dylid darparu cyfnod o 28 diwrnod i dirfeddianwyr gyflwyno gwybodaeth neu ddogfennau diwygiedig i gywiro gwall sylweddol, gyda dim ond un ymatebydd heblaw'r rhai a atebodd 'Ydw, ydyn' neu 'Ydw, ydyn yn amodol ar sylwadau pellach' yn anghytuno.

Themâu allweddol

3.51 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 6 fel a ganlyn:

- Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig, gyda dim ond un ymatebydd yn anghytuno;
- Ceisir mwy o eglurder ynglŷn â rôl a chyfrifoldebau Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin wrth nodi gwallau o'r fath.

Trosolwg

3.52 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod y cynnig yn gyfaddawd synhwyrol, pe bai sefyllfa yn codi lle y câi gwall ei ganfod. Nododd un ACLl hefyd fod y cyfnod arfaethedig o 28 diwrnod yn rhesymol.

3.53 Roedd ymatebydd o grŵp Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall hefyd yn cytuno â'r cynnig, er iddo geisio mwy o eglurder ynglŷn â rôl a chyfrifoldebau Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin o ran nodi gwallau o'r fath. Er enghraifft, ni ddylai'r ffaith bod datganiad wedi'i dderbyn a'i gofnodi fod yn gyfystyr â gwarant ar ran yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin bod datganiad yn ddilys.

3.54 Nododd ymatebydd arall o grŵp y Sector Gwirfoddol y dylai Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin allu cywiro gwall a wnaed wrth drawsysgrifio'r wybodaeth a adneuwyd ar gofrestr ac, os bydd Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin yn cywiro gwall sylweddol ar ddatganiad tirfeddiannwr, mai dim ond o ddyddiad y cywiriad y dylai'r cywiriad fod yn weithredol ac na ddylai fod yn ôl-weithredol.

3.55 Roedd un ymatebydd o grŵp y Sector Gwirfoddol yn anghytuno â'r cynigion ac awgrymodd mai tirfeddianwyr a ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau bod eu datganiad yn gywir ac y dylai ffi fod yn daladwy i'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin perthnasol, pe bai'n rhaid iddo unioni gwall neu hepgoriad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

3.56 Gan fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion ynghylch cywiro gwallau, ein bwriad yw bwrw ymlaen ar y sail hon a chyflwyno'r pŵer hwn gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth.

3.57 Fodd bynnag, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol nac yn angenrheidiol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin sy'n gyfrifol am gywiro unrhyw wallau a all gael eu canfod ar ôl i ddatganiad tirfeddiannwr gael ei gyflwyno am ein bod o'r farn mai'r unigolyn (unigolion) sy'n cyflwyno'r datganiad a ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ei chofnodi'n gywir.

3.58 Byddwn hefyd yn ceisio rhoi manylion pellach a mwy o eglurder ynglŷn â'r prosesau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin eu dilyn mewn perthynas â dileu eitemau o gofrestrau os canfyddir gwall sylweddol.

Y camau nesaf

3.59 Ein bwriad yw rhoi'r pwerau angenrheidiol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin ddileu datganiad tirfeddiannwr, neu unrhyw ran o ddatganiad tirfeddiannwr o'u cofrestr, os byddant yn fodlon bod gwybodaeth a geir yn y datganiad neu'r map cysylltiedig yn cynnwys gwall sylweddol.

3.60 Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tegwch, bydd yn ofynnol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin hysbysu'r tirfeddiannwr (tirfeddianwyr) perthnasol eu bod yn bwriadu dileu datganiad tirfeddiannwr neu unrhyw ran o ddatganiad tirfeddiannwr o'u cofrestr a rhoi hyd at 28 diwrnod i dirfeddiannwr (tirfeddianwyr) ddarparu gwybodaeth sy'n cywiro'r gwall(au).

3.61 Caiff mwy o gyngor manwl ar ddileu eitemau o gofrestrau os canfyddir gwall sylweddol ei ddarparu mewn canllawiau.

| | |
|---|---|
| **C7** | A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ar y papur ymgynghori? |

**Os gwnaeth ymatebwyr sylwadau na ellid eu nodi na'u hystyried o dan gwestiynau 1 – 6, maent wedi'u gosod yma.**

<u>Trosolwg</u>

3.62 Cyflwynodd rhai ymatebwyr sylwadau ychwanegol er mwyn tynnu sylw at broblemau neu faterion yr oeddent am gael mwy o eglurder yn eu cylch. Ymdrinnir â' rhain yn ôl thema isod:

*Diffiniadau*

3.63 Nododd un ymatebydd o'r grŵp Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb fod y diffiniad o "chwaraeon a difyrion cyfreithlon" yn rhy llac a'i fod yn galluogi unigolion a sefydliadau i wneud hawliadau pan fydd ymdeimlad o gymdogaeth wedi peri i dirfeddianwyr ganiatáu i ddefnydd achlysurol neu anffurfiol gael ei wneud o dir.

*Dull gweithredu dwyieithog*

3.64 Gofynnodd rhai ymatebwyr a fyddai pob ffurflen sy'n ymwneud â datganiadau tirfeddiannwr ar gael yn Gymraeg.

*Datrys anghydfod*

3.65 Gofynnodd un ACLl, pe bai anghydfod ynghylch y defnydd hanesyddol o dir am gyfnod o 20 mlynedd, rhwng y tirfeddiannwr a'r cyhoedd, pwy fyddai'n gorfod darparu tystiolaeth o'r defnydd hwnnw?

*Digwyddiadau sbarduno*

3.66 Nododd sawl ymatebydd mai dim ond i achosion lle roedd caniatâd cynllunio wedi'i roi roedd un o'r digwyddiadau sbardun yn gymwys. Mae hyn yn eithrio ac yn peryglu prosiectau lle mae ymgyngoriadau cynllunio cyn ymgeisio helaeth wedi'u cynnal sy'n arwain at gais i gofrestru fel modd i wrthwynebu'r datblygiad penodol hwnnw.

3.67 At hynny, awgrymodd un ymatebydd o grŵp y Sector Gwirfoddol na ddylid ychwanegu unrhyw ddigwyddiadau sbarduno newydd a fydd yn tanseilio proses Meysydd Tref a Phentref a'i gwneud yn anos i'w gweinyddu.

*Trefniadau trosiannol*

3.68 Awgrymodd un ymatebydd o grŵp y Sector Gwirfoddol ei bod yn hanfodol sicrhau nad amherir ar geisiadau i gofrestru tir fel Maes Tref neu Bentref, yn enwedig os gwneir cais cyn dyddiad dechrau'r ddeddfwriaeth newydd, er mwyn sicrhau na fydd y rheolau a'r rheoliadau newydd yn effeithio arnynt.

*Cyfnod gras*

3.69 Awgrymodd un ymatebydd o'r grŵp ACLl ac un o'r grŵp Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb y dylid lleihau'r cyfnod gras presennol o ddwy flynedd lle y dylid cofrestru tir fel maes tref neu bentref ar ôl i ddatganiad tirfeddiannwr gael ei gyflwyno, i un flwyddyn.

3.70 At hynny, awgrymodd un ymatebydd o grŵp Asiantaeth Llywodraeth / Corff Cyhoeddus Arall y dylai'r cyfnod gras ddechrau o'r adeg y ceir datganiad am y byddai'r amser y mae'n ei gymryd i ddilysu a chyhoeddi datganiad yn cwtogi rhywfaint ar yr amser hwn.

*Cynghorau Cymuned a Thref*

3.71 Nododd ymatebydd o grŵp Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall y dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin gyflwyno adroddiad blynyddol, gan ddarparu manylion cyfredol cofrestrau perthnasol, i'r cynghorau tref a chymuned gofynnol.

3.72 Yn yr un modd, nododd ymatebydd o grŵp y Sector Gwirfoddol y dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin hysbysu pob cyngor cymuned a thref perthnasol, ar ôl i ddatganiad tirfeddiannwr gael ei adneuo.

*Hysbysiadau yn cyhoeddi datganiad tirfeddianwr*

3.73 Cafwyd nifer o sylwadau gan amrywiaeth o randdeiliaid a oedd yn pryderu ynghylch yr effeithiau y byddai bodloni gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu penodol mewn perthynas â datganiadau tirfeddiannwr yn eu cael ar Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin o ran costau ac adnoddau.

3.74 Nododd sylwadau gan sawl ACLl fod y cyfnod arfaethedig o 60 diwrnod ar gyfer monitro hysbysiadau ar safleoedd yn rhy hir ac y dylid ei leihau i 28 diwrnod, oherwydd, os bydd yn ofynnol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin osod hysbysiad newydd yn lle unrhyw hysbysiad a gaiff ei ddifrodi, ei guddio o'r golwg neu ei symud o fewn y cyfnod o 60 diwrnod, gallai hyn fod yn feichus iawn.

3.75 Awgrym arall oedd y dylai'r unigolyn(unigolion) a adneuodd ddatganiad tirfeddiannwr fod yn gyfrifol am wneud y gwaith cyhoeddusrwydd a hysbysu a

bod rhan o'r datganiad yn cynnwys cadarnhad a thystiolaeth ei fod (eu bod) wedi dilyn y prosesau a'r gweithdrefnau angenrheidiol.

3.76 Gofynnodd ymatebydd arall o grŵp Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall a fyddai'n ofynnol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin arddangos un hysbysiad tirfeddiannwr fel datganiad a geir, neu un hysbysiad fesul parsel o dir?

Ymateb Llywodraeth Cymru

*Diffiniadau*

3.77 Gan fod y term “chwaraeon a difyrion cyfreithlon” eisoes wedi'i nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, nid ydym yn bwriadu ystyried unrhyw ddiwygiad iddo.

*Dull gweithredu dwyieithog*

3.78 Bwriadwn gyhoeddi datganiadau tirfeddiannwr ac unrhyw ffurflenni cysylltiedig yn Gymraeg a Saesneg.

*Datrys anghydfod*

3.79 O dan amgylchiadau lle y cyflwynir cais i gofrestru maes tref neu bentref gan berson (neu bersonau) nad yw'n (nad ydynt) yn berchen ar y tir, y person (neu'r personau) sy'n gwneud y cais a fyddai'n gyfrifol am brofi bod y tir wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer chwaraeon a difyrion cyfreithlon am fwy nag 20 mlynedd.

*Digwyddiadau sbarduno*

3.80 Mae'r digwyddiadau sbarduno a therfynu eisoes wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol (Deddf Cynllunio (Cymru) 2015) ac, er bod pwerau eisoes yn bodoli i Weinidogion Cymru ddiwygio'r digwyddiadau sbarduno a therfynu hyn, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, nid ydym yn bwriadu gwneud hynny ar hyn o bryd.

*Trefniadau trosiannol*

3.81 Rydym yn cytuno na ddylai ceisiadau i gofrestru maes tref neu bentref a gyflwynir cyn i'r ddeddfwriaeth newydd arfaethedig ‘ddod i rym’ fod yn destun unrhyw un o'r cynigion sbarduno a therfynu a nodir yn y papur ymgynghori a byddwn yn ceisio sicrhau y caiff y trefniant trosiannol hwn ei gynnwys mewn deddfwriaeth.

*Cyfnod gras*

3.82 Yn debyg i sylwadau ynghylch y diffiniad o “chwaraeon a difyrion cyfreithlon”, mae'r cyfnod gras presennol o ddwy flynedd sy'n gymwys i Gymru eisoes wedi'i nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol ac nid oes gennym gynlluniau i’w ddiwygio ar hyn o bryd.

*Cynghorau Cymuned a Thref*

3.83 Cydnabyddwn bwysigrwydd Cynghorau Tref a Chymuned mewn materion lleol sy'n effeithio ar gymunedau a byddwn yn ceisio cynnwys darpariaeth mewn deddfwriaeth a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin hysbysu unrhyw un sydd wedi gofyn yn flaenorol am gael ei hysbysu fod datganiad tirfeddiannwr wedi'i adneuo.

*Hysbysiadau yn cyhoeddi datganiad tirfeddianwr*

3.84 Er inni gael sylwadau a awgrymodd y byddai'r ddyletswydd arfaethedig i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin fodloni gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu yn rhy feichus, rydym o'r farn bod hyn yn angenrheidiol a byddwn yn ceisio rhoi'r pŵer i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin godi eu ffi eu hunain, y gellir ei defnyddio i adennill unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â datganiadau tirfeddiannwr (gan gynnwys gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu).

3.85 At hynny, rydym yn derbyn y gall y gofyniad arfaethedig i fonitro hysbysiadau ar safleoedd am gyfnod o 60 diwrnod a rhoi hysbysiad newydd yn lle unrhyw un a gaiff ei symud, ei guddio o'r golwg neu ei ddifwyno, fod yn feichus, yn enwedig ar gyfer ardaloedd mwy gwledig. Felly, bwriadwn fabwysiadu dull gweithredu lle yr ystyrir bod Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin wedi cydymffurfio â'r gofynion i osod hysbysiadau ar safleoedd, hyd yn oed os caiff yr hysbysiadau hyn eu symud, eu cuddio o'r golwg neu eu difwyno cyn diwedd y cyfnod o 60 diwrnod heb fod bai ar yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin perthnasol a heb iddo fwriadu i hynny ddigwydd.

3.86 O ran nifer yr hysbysiadau safle y dylid eu harddangos, bwriadwn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin arddangos o leiaf un hysbysiad safle fesul datganiad tirfeddiannwr a gyflwynir iddynt. Fodd bynnag, byddem yn annog Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin i ystyried maint y tir a nifer y mynedfeydd er mwyn penderfynu a fyddai mwy nag un hysbysiad safle yn fuddiol.

## ATODIAD A - RHESTR O YMATEBWYR YN ÔL CATEGORI

Noda'r tabl isod y categorïau yr oedd ymatebwyr wedi'u dewis iddynt hwy eu hunain wrth gwblhau'r ffurflen ymgynghori.

| **Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio** | | **Awdurdod Cynllunio Lleol** | |
|---|---|---|---|
| | Dim | 003 | Cyngor Sir Penfro |
| | | 007 | Cyngor Sir Ddinbych |
| | | 009 | Cyngor Bwrdeistref Sir Caerffili |
| | | 010 | Cyngor Sir Gâr |
| | | 012 | Cyngor Sir Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf |
| | | 017 | Dinas a Sir Abertawe |
| **Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall** | | **Y Sector Gwirfoddol** | |
| 001 | Cyngor Dre Llanelli | 005 | Ffrindiau'r Ddaear Torfaen |
| 002 | Cyngor Dre Abergele | 015 | Cymdeithas Mannau Agored |
| 008 | Cyngor Dre Barri | **Arall** | |
| 011 | Cyngor Sir Powys (Cofrestru Tir Comin) | 019 | Cymdeithas Mannau Agored |
| 016 | Cyngor Dre Conwy | 022 | Adran Eiddo Llywodraeth Cymru |
| **Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb** | | | |
| 004 | CLA Cymru | | |
| 006 | Cyngor Dre Pwllheli | | |
| 013 | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi | | |
| 014 | Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn | | |
| 018 | Cymdeithas Eryri | | |
| 020 | Cyngor Cymuned St. Dogmaels | | |
| 021 | Caeau mewn Ymddiriedolaeth | | |